**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Mercher, 10 Hydref 2018 am 10.00 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd J James
Y Cynghorydd E Stephens

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Ms W Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg
E Siôn, Menter Iaith

**1 Croeso a chyflwyniadau**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu Aelodau newydd i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

**2 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan E. Siôn, Menter Iaith

**3 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol E. Stephens fuddiant personol yn Eitem 4 yr agenda - Gwasanaethau Cymraeg - Archwiliadau Mewnol o Gydymffurfiaeth. "Rwy'n adnabod y Swyddog Cydymffurfio a ymgymerodd â'r archwiliadau mewnol yn bersonol"

**4 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gafodd ei gynnal ar 28 Tachwedd 2018, yn rhai cywir.

**5 Gwasanaethau Cymraeg - Archwiliadau Mewnol o Gydymffurfiaeth**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau yn y Gymuned amlinelliad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg o'r broses y mae'r Gwasanaethau Cymraeg wedi'i mabwysiadu ar gyfer archwilio cydymffurfiaeth adrannau â Safonau'r Gymraeg, gan amlygu meysydd lle mae achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio a chynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa o ddyletswydd awdurdodau lleol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'u dyletswydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Esboniodd y swyddog pe bai'r Cyngor yn destun ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg am achos o dorri'r Safonau mewn unrhyw ffordd, mae'n bosibl y bydd y broses yn cymryd hyd at 18 mis i'w chwblhau ac mae modd iddi arwain at dâl cosb o hyd at £5,000. Esboniodd fod swydd Swyddog Cydymffurfio wedi'i chreu oddi mewn i'r strwythur gwasanaeth newydd i osgoi sefyllfa fel hyn. Mae'r Swyddog Cydymffurfio yn cynnal archwiliadau mewnol rheolaidd i asesu lefel cydymffurfiaeth gwasanaethau'r Cyngor sy'n sicrhau bod modd nodi unrhyw achosion posibl o dorri safonau, neu unrhyw feysydd lle mae heriau penodol, a mynd i'r afael â nhw ar unwaith cyn i gŵyn gael ei chyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd.

Cafodd yr aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 a 2 yr adroddiad, lle mae archwiliadau mewnol cyntaf y Swyddog Cydymffurfio o'r Adran Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cael eu hamlinellu. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod cydymffurfiaeth wedi'i gyflawni mewn nifer o feysydd, ac yn cydnabod bod ymgorffori'r Safonau yn broses sy'n esblygu.

Wrth siarad am archwiliad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, dywedodd Pennaeth Gwasanaethau yn y Gymuned ei bod yn anodd monitro cydymffurfiaeth staff gan fod pedwar safle ar ddeg ar wahân. Serch hynny, roedd yn bleser dysgu bod Cymraeg Lefel 1 a hyfforddiant gloywi yn flaenoriaeth i staff rheng flaen, i'w helpu i feithrin hyder wrth ateb y ffôn i aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Gofynnodd un Aelod a fyddai Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried materion bach roedd y Swyddog Cydymffurfio wedi eu nodi, fel yr angen am stamp llyfr dwyieithog. Esboniodd y swyddog mai'r rheol yw trin y ddwy iaith yn deg ac o ganlyniad, rhaid gwneud hyd yn oed y newidiadau lleiaf er mwyn cydymffurfio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad a siaradodd yn gadarnhaol am ei gynnwys a'r cynnydd o safbwynt cydymffurfio o fewn yr awdurdod lleol. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd modd gwneud ymarfer ffonio 'siopwr dirgel' yn fewnol i sicrhau bod pob aelod o staff yn teimlo'n hyderus wrth ateb eu ffonau yn ddwyieithog. Dywedodd y swyddog y byddai'r broses yn cael ei chynnal ym mis Ionawr, 2019 gyda chymorth Intern i sicrhau bod unrhyw faterion ffôn yn cael eu nodi a'u datrys cyn i Gomisiynydd y Gymraeg ddod o hyd i unrhyw achosion o dorri'r Safonau.

Canmolodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad a'r camau a oedd wedi'u cymryd gan y Swyddog Cydymffurfio a dau faes gwasanaeth i gydymffurfio ymhellach â'r Safonau a oedd wedi'u gosod. Cydnabu'r Aelod y byddai meysydd ar gyfer gwella yn debygol o gael eu nodi oherwydd y ffyrdd newydd o weithio a diffyg hyder rhai o'r staff. Dywedodd y Dirprwy y byddai hi'n canmol gwaith ardderchog yr Adran yn ystod ei chyfarfodydd rheolaidd gyda Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol a sicrhau bod gwaith yn parhau ar y meysydd targed ar gyfer gwelliant.

Holodd un Aelod a oedd angen i ohebiaeth i unigolion a sefydliadau y tu allan i Gymru gael ei hanfon yn ddwyieithog a chadarnhaodd y swyddog fod yr angen

am ohebiaeth ddwyieithog yn berthnasol i Gymru yn unig.

Ar ran y pryderon a oedd wedi'u codi gan etholwyr, holodd un Aelod a oedd modd anfon gohebiaeth i'r cyhoedd yn iaith eu dewis. Esboniodd y swyddog, os yw gohebiaeth ffurfiol y Cyngor fel llythyrau Treth y Cyngor yn cael ei hanfon at nifer o bobl, yna mae rhaid iddi fod yn ddwyieithog neu mae'n torri Safon 4. Ychwanegodd y swyddog fod modd anfon gohebiaeth weithredol at berson yn iaith ei ddewis neu'r iaith wnaeth y person ei defnyddio pan wnaeth gysylltu â ni yn y lle cyntaf. Dywedodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol fod gosod y testun dwyieithog ochr yn ochr yn lleihau'r gost i'r Cyngor.

Roedd trafodaethau ynghylch yr opsiwn o gynnal cronfa ddata ganolog yn y Cyngor lle mae pob preswylydd lleol a'i ddewis iaith yn cael ei nodi, fodd bynnag, y dybiaeth oedd bod hyn yn amhosibl ei rheoli. Cydnabu un Aelod bwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg ond dywedodd y dylai dewis personol fod yn hollbwysig.

Cydnabu'r Dirprwy Arweinydd, o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, bod gan RCT ddemograffeg wahanol a rhaid trin pob preswylydd yn deg.

Roedd yr Aelodau'n cytuno, wrth symud ymlaen, ei bod hi'n bwysig parhau â'r archwiliadau adrannol i leihau'r risg o dorri'r safonau gan y Cyngor ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad; a
b) Cymeradwyo cynnal archwiliadau pellach er mwyn lleihau'r risg i'r Cyngor, a chynnig atebion er mwyn i feysydd gwasanaeth fynd i'r afael ag unrhyw achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio.

## 6 Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymraeg wybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018, a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â hyn.

Dywedodd y swyddog, er bod awdurdodau lleol yn gyfrifol yn y pen draw am benderfynu ar ffurfiau'r enwau lleoedd maen nhw'n eu defnyddio, cyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg yw rhoi cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg i unigolion a sefydliadau, ac i bwysleisio ymhellach bwysigrwydd mabwysiadu ffurfiau safonol ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus, arwyddion, mapiau a pheiriannau chwilio ar-lein. O ganlyniad, Ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Gorffennaf gan dynnu sylw at y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, a gafodd ei chyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd wedi nodi y byddai'n dymuno i'r Cyngor fabwysiadu'r rhestr yma.

Esboniodd y swyddog fod Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg wedi ymgymryd â darn eang o waith a oedd yn ystyried ystyr, hanes ac etymoleg yr enwau lleoedd ac o ganlyniad, wedi sefydlu a chyhoeddi'r rhestr ar wefan y Comisiynydd.

Cafodd yr Aelodau wybod fod Comisiynydd y Gymraeg wedi argymell bod

Cyngor RhCT yn mabwysiadu ffurf uniaith ar gyfer Llanhari, Treorci a Chwmdâr, gyda'r nod o roi'r gorau i ddefnyddio 'Llanharry', 'Treorchy' a 'Cwmdare' a'i bod yn bosibl y bydd argymhellion pellach yn cael eu cynnig yn y dyfodol.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad manwl. Wrth siarad am gynigion Comisiynydd y Gymraeg, mynegodd y Cadeirydd bryderon ynghylch diffyg ymgynghori â thrigolion lleol a diffyg ymateb gan yr Aelodau Lleol.

Ailadroddodd y Dirprwy Arweinydd bryderon y Cadeirydd, gan bwysleisio pwysigrwydd derbyn adborth gan y bobl y mae modd i'r cynigion effeithio arnyn nhw, cyn mabwysiadu'r rhestr. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd y Grŵp Llywio at y rhestr ehangach o newidiadau mewn perthynas â RhCT a gan gyfeirio at ei ward ei hun, Rhydfelen, holodd y Dirprwy Arweinydd pam mae'r Rhestr yn cynnwys y ffurfiau Cymraeg amgen ar gyfer rhai trefi, ac a fyddai newid sillafu yn cael effaith ar ystyr hanesyddol yr ardal.

Yn eu tro, cymerodd rhai o'r Aelodau y cyfle i siarad am eu wardiau eu hunain a'r effaith y byddai unrhyw newidiadau yn ei chael ar y trigolion. Roedd yr Aelodau yn cytuno y dylid rhoi dewis i gymunedau RhCT pa un a yw'r Cyngor yn dewis mabwysiadu'r cynigion a bod angen ystyried tarddiad yr ardaloedd unigol.

Gan fod yr Aelodau'n unfryd, awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol ysgrifennu yn gyntaf at Gomisiynydd y Gymraeg i gael dealltwriaeth o resymeg y cynigion, gan gynnwys y rhestr ehangach mewn perthynas â RhCT, cyn ymgynghori â'r trigolion lleol. Dywedodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol, pe bai Aelodau'n dymuno diwygio'r argymhellion, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod priodol nesaf o'r Cabinet i ofyn am gymeradwyaeth i ysgrifennu at y Comisiynydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y swyddogion i barhau i ddefnyddio'r enwau lleoedd sy wedi'u nodi yn Rhestr Tir ac Eiddo Lleol Rhondda Cynon Taf (LLPG), sy'n caniatáu i adrannau megis Cynllunio, Priffyrdd a Chludiant roi dull cyson ar waith o safbwynt defnyddio enwau lleoedd wrth iddyn nhw weinyddu eu dyletswyddau penodol.

Yn dilyn ystyriaeth, **PENDERFYNODD** Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

a) Argymell bod y Cabinet yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg, o ran y rhesymeg dros y newidiadau sy wedi'u nodi yn Rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn llywio penderfyniad y Cabinet yn y dyfodol yn well.
b) Argymell i'r Cabinet y dylid ymgynghori â'r cymunedau sy wedi'u hamlygu yn yr adroddiad a bod y rhesymeg sy wedi'i mabwysiadu gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn rhan o'r broses yma. Hyd nes ei fod yn cytuno fel arall, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r enwau cyfredol sy wedi'u hamlinellu yn Rhestr Tir ac Eiddo Lleol Rhondda Cynon Taf (LLPG).

## 7 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dywedodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn cael ei gynnal ddydd Mercher 3 Ebrill, 2019, ond byddai'r Aelodau'n cael gwybod mewn da bryd petai'n galw am gyfarfod yn gynt.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 am**

**Cllr G Hopkins**
**Cadeirydd.**